**CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Polisi Iaith Addysg Gwynedd |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog perthnasol:** | Siwan Llwyd Roberts. |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | Rhagfyr 16eg, 2025 |

## 1. Y Penderfyniad a geisir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw gwahodd y Cabinet i :-

*i.* mabwysiadu drafft o Bolisi Iaith Addysg Gwynedd enghreifftiol i ysgolion Gwynedd er mwyn ei gyflwyno i bwrpas ymgysylltu cyhoeddus. *( Atodiad 1)*

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

**2.1** Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo drafft o'r Polisi Iaith Addysg sydd wedi'i lunio yn dilyn proses estynedig o ymgysylltu gyda rhanddeiliaid.

**2.2** Mae cymeradwyo'r drafft yn gam allweddol i alluogi'r Cyngor gynnal ymgysylltiad cyhoeddus pellach cyn adrodd yn ôl i Gabinet ar ganlyniadau'r ymgysylltu a gofyn i aelodau'r Cabinet am benderfyniad i fabwysiadu'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol neu beidio.

**2.3** Yn ddarostyngedig i fabwysiadu'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol, byddai yn cael ei gyflwyno i bob corff llywodraethu er mwyn iddynt geisio barn cymuned eu hysgol yn gyntaf, ac yna ystyried ei fabwysiadu a'i weithredu.

**2.4** Argymhelliad cryf y Cyngor fyddai i bob ysgol fabwysiadu Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd a'i weithredu'n llawn fis Medi 2026.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

**3.1:** Mae Polisi Iaith Addysg Gwynedd yn rhan o strategaeth ehangach gan y Cyngor, i sicrhau fod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

**3.2** Mae'n amserol diweddaru Polisi Iaith Addysg presennol Gwynedd, er mwyn adlewyrchu sefyllfa ieithyddol gyfredol y sir a darparu cefnogaeth glir i ysgolion.

**3.3**: O dan Ddeddfwriaeth Addysg (2013), bu'n ofynnol i bob awdurdod lleol gytuno ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) gyda Llywodraeth Cymru – cynllun sy'n

weithredol am gyfnod o ddeng mlynedd (2023-2033). Amlinellir y prif egwyddorion cyfredol sy'n gysylltiedig â pholisïau iaith addysg Cyngor Gwynedd yn y CSCA.

**3.4**: Yn 2016, cyhoeddwyd strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (Llywodraeth Cymru). Mae'r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Mae nodau'r strategaeth yn cyd-fynd â'r nodau strategol mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn eu hyrwyddo ers nifer o ddegawdau.

**3.5**: O fewn Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 nodir bod y Gymraeg yn ofyniad gorfodol.

**3.6:** Disgwylir, yn ogystal, i strategaethau addysg Cyngor Gwynedd roi ystyriaeth i'r dogfennau canlynol: *Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb* (Llywodraeth Cymru; 2023) a *Canllaw gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, atebolrwydd a gwella* (Llywodraeth Cymru; 2024). Yn y dogfennau hyn, rhoddir dyletswydd ar yr awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymru i gynllunio'n briodol ar gyfer cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gallu siarad y Gymraeg, ac sy'n gwneud hynny'n ddyddiol.

**3.7**:  Er bod Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 7 Gorffennaf 2025, nid yw mwyafrif y gofynion statudol eto mewn grym . Dros y blynyddoedd nesaf, wrth i rannau penodol o'r Ddeddf ddod yn weithredol bydd yn gosod dyletswyddau statudol ar ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Bwriad Cyngor Gwynedd ydy bod yn rhagweithiol gan gydweithio gyda'n hysgolion i gynnal ac i hybu addysg Gymraeg ac i gryfhau ymrwymiad pob ysgol i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu. Rydym hefyd am sicrhau bod ein hysgolion yn medru cwrdd â'r gofynion newydd fydd sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru, erbyn diwedd eu cyfnod ysgol gorfodol, yn datblygu fel defnyddiwr annibynnol o'r Gymraeg.

**3.8 :** O fewn Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 bydd y gofynion sy'n ymwneud â chategoreiddio ysgolion yn cael eu gweithredu'n raddol. Disgwylir i'r codau a'r rheoliadau sy'n sail i'r system gategoreiddio statudol gael eu cyhoeddi erbyn Gorffennaf 2027, gyda'r trefniadau newydd yn cael eu gweithredu'n llawn drwy Gynlluniau Cyflawni ysgolion rhwng 2029 a 2030. Bydd hyn yn gosod categorïau iaith statudol ar gyfer pob ysgol. Ni chaiff unrhyw ysgol symud yn ôl na gostwng ei lefel o ddarpariaeth Gymraeg; yn hytrach rhaid cynnal neu gynyddu'r ddarpariaeth bresennol.

## 4.1 Cefndir/ Cyflwyniad

**4.1.1** Yn ystod 2024–2025 o dan arweiniad yr Ymgynghorydd Iaith, Meirion Prys Jones, cynhaliodd Cyngor Gwynedd gyfres o sesiynau ymgysylltu cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid allweddol – penaethiaid ysgolion Gwynedd, disgyblion ac aelodau Fforymau Iaith, cynrychiolwyr mudiadau Iaith a chynrychiolwyr Comisiynydd y Gymraeg - er mwyn llywio datblygiad Polisi Iaith Addysg Gwynedd.  Y nod oedd sicrhau bod  polisi diwygiedig yn cael ei gyflwyno er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa ieithyddol bresennol ac uchelgais y Cyngor i gryfhau darpariaeth Gymraeg yn yr ysgolion.

**4.1.2** Roedd yr adborth yn dangos cefnogaeth glir i'r Gymraeg ac i ddiweddaru Polisi Iaith Addysg Gwynedd. Nodwyd bod y polisi presennol wedi bod yn llwyddiannus, yn enwedig yn y sector cynradd ac o ran y Gyfundrefn Addysg Drochi, ond ei fod bellach yn perthyn i gyfnod pan oedd y Gymraeg yn gryfach yn gymdeithasol. Gwelwyd heriau o ran cysondeb ei weithredu ar draws y sir, dilyniant ieithyddol rhwng cyfnodau, ac eglurder ynghylch disgwyliadau, yn ogystal â phryderon ynghylch recriwtio, hyfforddiant ac atebolrwydd. Roedd y sectorau cynradd, uwchradd, llywodraethwyr, aelodau etholedig a'r dysgwyr eu hunain yn tynnu sylw at yr angen am gamau cliriach i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg, sicrhau un polisi sirol cryf, a chynllunio'n strategol dros gyfnod i feithrin capasiti a sicrhau mwy o gefnogaeth ymarferol i ysgolion.

Roedd consensws cryf bod angen newid gan adeiladu ar lwyddiannau'r polisi presennol a'i ddiwygio i adlewyrchu realiti ieithyddol cyfredol y sir. Yn benodol, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am fonitro cadarn, system gategoreiddio ddealladwy, a chyd-destun eglur ar gyfer unrhyw ddiwygiad. Gofynnwyd am well dilyniant rhwng pob cyfnod addysgol hyd at 16+ oed, cryfhau defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, a chynnwys darpariaeth gliriach ar rôl rhieni, cymunedau, a'r sector cyn-ysgol. Cyfeiriwyd hefyd at yr angen i sicrhau nad yw unrhyw ysgol yn mynd yn ôl ar hyd y continwwm ieithyddol, ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu realistig yn cefnogi ehangu addysg Gymraeg ar draws y sir.

**4.1.3** Ar **13 Chwefror 2025,** derbyniodd y **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi** adroddiad ar ganlyniadau'r gwaith. Nodwyd mai'r prif gasgliadau oedd yr angen am bolisi iaith cryno, clir a chadarn. Amlygwyd yr angen am hyfforddiant, yr her i recriwtio a'r angen i edrych yn ofalus ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Cytunwyd y dylai Polisi Iaith Addysg Gwynedd fod yn bolisi cynhwysfawr yn cynnwys strategaeth i geisio dylanwadu'n gadarnhaol ar rieni i hybu ac annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol a thu hwnt. Nodwyd yr angen i gryfhau'r polisi iaith presennol.

**4.1.4** : Ar **10 Ebrill 2025,** cyflwynwyd polisi drafft diwygiedig gan yr Aelod Cabinet dros Addysg i'r **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.** Mynegwyd pryderon am ddiffyg uchelgais mesuradwy a thargedau pendant yn y polisi drafft. Galwyd am dargedau cynnydd clir a monitro rheolaidd gan swyddogion penodedig. Penderfynwyd gwneud cais i'r Fforwm Craffu i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer ffurfio grŵp tasg a gorffen, gyda'r brîff i edrych ar eiriad y Polisi Iaith Addysg Drafft gan ystyried gwneud awgrymiadau i'r Aelod Cabinet / Adran Addysg, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor yng nghyfarfod 19 Mehefin 2025.

**4.1.5** Ar **2 Mehefin 2025,** trafododd y **Grŵp Tasg a Gorffen** ddiwygiadau i'r polisi drafft

**4.1.6** Ar **19 Mehefin 2025**, cyflwynwyd argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen i aelodau'r **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.** Cyflwynwyd cyfres o argymhellion i dynhau ac egluro'r polisi, nodi canllawiau cliriach ar ddarpariaeth Gymraeg mewn gweithgareddau, defnyddio diffiniadau Bil y Gymraeg ac Addysg 2025 o ysgolion Cymraeg, mynegi canrannau darpariaeth, ac ymhelaethu ar gynlluniau cynnydd ysgolion. Codwyd cwestiynau am ysgolion trosiannol a'r amcanion sy'n ymwneud â Saesneg, a sut i gydbwyso anogaeth â gorfodaeth, yn enwedig yng nghyd-destun trochi. Mynegwyd yr angen i'r polisi ymwneud â seicoleg iaith a sicrhau bod rhieni ac ysgolion yn teimlo eu bod yn rhan o'r daith ieithyddol.

Wrth ymateb, eglurodd swyddogion bod Y Ddeddf newydd heb ddod i rym eto, a bod angen cynllunio dros gyfnod trosiannol. Pwysleisiodd yr Adran Addysg eu hymrwymiad i'r Gymraeg ond hefyd yr angen i sicrhau dull gweithredu realistig, cadarn ac ymarferol ledled y sir. Cafwyd trafodaeth ar ADY, gan nodi pryderon ynghylch hepgor rhai cyfeiriadau statudol a'r angen am dystiolaeth glir ar iaith ac ADY. O ganlyniad, penderfynwyd nodi gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen, gan gydnabod diffyg consensws ar rai newidiadau, a gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg ystyried yr holl sylwadau wrth baratoi'r polisi terfynol.

**4.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

**4.2.1** O dderbyn argymhelliad aelodau'r Pwyllgor Craffu bod yr Aelod Cabinet dros Addysg yn ystyried yr ystod o sylwadau a gyflwynwyd gan yr Aelodau wrth lunio'r polisi , mae'r swyddogion wedi mynd ati i lunio drafft diwygiedig a gwahoddir y Cabinet i gymeradwyo'r drafft hwnnw o Bolisi Iaith Addysg Gwynedd er mwyn ei gyflwyno fel polisi enghreifftiol i bwrpas ymgysylltu cyhoeddus.

**4.2.2** Mae **Asesiad Cydraddoldeb** yn asesu effaith Polisi Iaith Addysg arfaethedig Cyngor Gwynedd ar holl boblogaeth y sir wedi ei gynnal , gan gydymffurfio â:

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol
- Safonau'r Gymraeg (Mesur 2011)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Deddf Lluoedd Arfog 2021

- Nodau'r Polisi arfaethedig yw sicrhau bod pob disgybl yng Ngwynedd, erbyn diwedd eu haddysg statudol, yn meddu ar sgiliau cadarn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn yn hyrwyddo ffyniant y Gymraeg a chynnal ei defnydd cymunedol; grymuso disgyblion i fyw a gweithio mewn byd amlieithog; sicrhau tegwch ieithyddol a chymdeithasol i bob plentyn.

- Cynhaliwyd cyfres sylweddol o gyfarfodydd ymgysylltu rhwng Hydref a Rhagfyr 2024 a'r rheiny gyda dysgwyr o bob oedran mewn ysgolion ledled y Sir; Penaethiaid cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig ledled Gwynedd; Mudiadau iaith:- Cylch yr Iaith, Cymdeithas yr Iaith, Dyfodol yr Iaith, Rhieni dros Addysg Gymraeg. Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet cynhelir ymgysylltiad cyhoeddus pellach.

- **Asesiad o Effaith**
  **Effaith gadarnhaol :** Dim effaith negyddol amlwg ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig ac effaith gadarnhaol sylweddol ar hyrwyddo'r Gymraeg, cydraddoldeb cyfleoedd ac undod cymunedol. Cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg ac yn gymunedol. Cynyddu cyfleoedd gwaith drwy feithrin sgiliau dwyieithog. Cefnogi hyder a hunaniaeth gadarn. Darparu mynediad cyfartal i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol (ADY).

- **Risgiau posibl:** Pwysau ar ysgolion i weithredu'r polisi'n llawn. Angen hyfforddiant parhaus ac adnoddau digonol.
  Nid oes tystiolaeth o effaith anghyfartal neu wahaniaethu anghyfreithlon.

- **Ystyriaethau Cydraddoldeb ac Economaidd-Gymdeithasol.** Mae'r polisi arfaethedig yn dileu gwahaniaethu drwy gynnig mynediad ieithyddol cyfartal i bawb. Mae'n hyrwyddo cyfle cyfartal trwy gynyddu mynediad at addysg Gymraeg ac yn meithrin perthnasau da drwy gynlluniau ysgolion ac ethos Cymreig cyson. Mae'n mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol drwy gynlluniau trochi, cymorth i deuluoedd a mynediad at adnoddau a thechnoleg Gymraeg.

- **Ystyriaethau'r Gymraeg.** Mae'r polisi arfaethedig yn gweithredu'n unol â Safonau'r Gymraeg ac yn blaenoriaethu'r Gymraeg fel prif iaith weinyddol ac addysgol. Mae'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn hyrwyddo defnydd yr iaith yn y gymuned, ymysg pobl ifanc ac yn y gweithle ac yn atgyfnerthu rôl ysgolion fel canolfannau iaith a diwylliant Cymraeg.

**4.2.3 Cyfraniad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ( Cymru) 2015.**

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
- Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus ac wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant drwy ddilyn y 5 ffordd o weithio.
- Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy drwy weithredu mewn cydweithrediad â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith ar bobl yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.
- Mae'r polisi arfaethedig yn cyfrannu at bob un o'r **7 nod llesiant**, gan gynnwys Cymru fwy cyfartal, gydnerth ac â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
  Mae'n gweithredu drwy'r **pum ffordd o weithio** – hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys.

**5. Camau Nesaf ac Amserlen**

**5.1** Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn bydd angen cynnal cyfnod o ymgysylltu. Rhagwelir y byddai'r cyfnod ymgysylltu hwnnw yn cael ei gynnal rhwng Ionawr 7fed a Chwefror 25ain, 2026.

**5.2** Wedi hynny, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgysylltiad. Bydd yn ofynnol wedyn i'r Cabinet ystyried canlyniadau'r ymgysylltiad, a phenderfynu a ddylid mabwysiadu'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol neu beidio.

**5.3** Yn dilyn hyn bydd y Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol yn cael ei gyflwyno i bob corff llywodraethol geisio barn cymuned pob ysgol cyn ystyried ei fabwysiadu a'i weithredu fis Medi 2026. Argymhelliad cryf Cyngor Gwynedd fyddai i bob ysgol fabwysiadu Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd a'i weithredu'n llawn fis Medi 2026.

Mae'r tabl isod yn rhestru'r camau nesaf ac amserlen amlinellol ar gyfer eu gweithredu.

| Dyddiad | Camau gweithredu |
|---|---|
| Ionawr 7ed 2026 – Chwefror 25ain 2026 | Cynnal ymgysylltiad cyhoeddus er mwyn i Gyngor Gwynedd fedru ystyried yr ymatebion wrth lunio drafft pellach o'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol. |
| Mai 2026 | Adrodd yn ôl i Gabinet ar ganlyniadau'r ymgysylltu gan ofyn i aelodau'r Cabinet am benderfyniad i fabwysiadu'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol neu beidio. |
| Mai – Gorffennaf 2026 | Pob Corff Llywodraethol yn ceisio barn cymuned yr ysgol ar gynnwys y Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol cyn ystyried ei fabwysiadu a'i weithredu fis Medi 2026. |

## 6. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 6.1 Prif Swyddog Cyllid

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol

### 6.2 Swyddog Monitro

Mae cryn waith a thrafod wedi bod ar y polisi arfaethedig yma. Mae'n gam cychwynnol i adolygu trefniadau a chynnig polisi i gyrff llywodraethu fyddai yn paratoi y ffordd ar gyfer dod a Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 i rym yn helaeth. Mae'r penderfyniad yn agor cyfle i gynnal cyfnod o ymgysylltu ar y bwriad a chanfasio barn ar y Polisi arfaethedig. Bydd angen dod yn ôl am benderfyniad fydd yn rhoi cyfle i'r Cabinet ystyried yr ymatebion a dod i farn terfynol.

## 7. Rhestr Atodiadau:

**Atodiad 1** – Polisi Iaith Addysg Gwynedd 2025 ( Drafft)
**Atodiad 2** – Canllaw i Bolisi Iaith Addysg Gwynedd 2025 ( Drafft)
**Atodiad 3** – Asesiad Cydraddoldeb – Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd.